



Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd - LEADER.

17.10.2018

Canolfan Awyrfod Eryri, Llanbedr

Yn Bresennol:

Cynrychiolaeth o'r Sector Fenter:		
Ian Nellist	(IN)	FSB
Dafydd Watts	(DW)	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Gwenan Williams	(GW)	Bwyty Lleu
Ceri Cunnington	(CC)	Antur Stiniog
Menna Jones	(MJ)	Antur Waunfawr
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol:		
Sian Tomos	(ST)	Gisda Cyf
Arwel Jones	(AJ)	Partneriaeth Llyn
Carys Williams	(CW)	Mantell Gwynedd
David Ingham	(DI)	DIY Industries Cyf
Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus:		
OG Thomas	(OG)	Un Llais Cymru
Einir Young	(EY)	Prifysgol Bangor
Rhodri Owen	(RO)	Coleg Glynllifon
Cynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd:		
Cynrychiolaeth o Fenter Môn/ Arloesi Gwyendd Wledig:		
Zoe Pritchard	(ZP)	
Rachel Roberts	(RR)	
Eleth Peate	(EP)	
Aaron Warren	(AW)	
Rhian Hughes	(RH)	
Rhys Gwilym	(RG)	
Sioned Morgan Thomas	(SMT)	
Carwyn ap Myrddin	(CM)	





Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Dafydd Gruffydd	(DG)
-----------------	------

Pwynt	Manylion	Gweithred
Cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol		
1.	Cafodd croeso ei ymestyn i bawb i'r cyfarfod gan Menna Jones, eglurodd fod Alun Evans methu mynychu felly hi fydd yn cadeirio'r cyfarfod. Estynodd MJ groeso i ddau aelod newydd i'r LAG, Rhodri Owen a Carys Williams. Hefyd estynodd groeso i ddau aelod staff newydd AGW, Rhys Gwilym a Carwyn ap Myrddin.	
2.	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 5 aelod trwy law RG. <ul style="list-style-type: none"> Alun Wyn Evans (Cadeirydd/NFU) Helen Pye (Parc Cenedlaethol) Cyng. Ioan Thomas Gwion Llwyd (Dioni Ltd) Craig ab Iago (Dyffryn Nantlle 2020) 	
3.	<u>Datganiadau o Ddiddordeb</u> Cwblhaodd Einir Young a Sian Tomos ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer cais Cronfa Peilota Gwynedd Llety Arall gan eu bod nhw'n gyfranddalwyr yn y cwmni. Cwblhaodd Menna Jones ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Llety Arall a Prescripsiwn Cymdeithasol.	
4.	<u>Cofnodion Cyfarfod 11/07/2018</u> <u>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.</u> Nid oedd dim yn codi o'r cofnodion.	
5.	<u>Diweddariad prosiectau cyfredol:</u> <u>Cysawd Eryri:</u> Rhoddodd RR ddiweddariad ar y cynllun hwn. Mae'r prosiect wedi cymeryd mwy o amser na'r disgwyl- gorfod gweithio yn ôl amserlen gwyliau'r ysgol. Yr Haul yn cael ei greu heddiw yn Blaenau Ffestiniog gan yr artist Andy Birch a phobl ifanc o Gisda. Sesiwn olaf yfory yn Oakley Arms gyda Ysgol Cefn Coch Penrhyndeudraeth i greu y blaned Iau (wedi cael ei ddal yn ôl oherwydd angen mynd trwy proses cynllunio gyda Parc caniatad nad oes angen caniatad cynllunio). Y planedau eraill ar fin gorffen, cael eu gosod wythnos nesaf. Mae pamffledi, gwefan a placiau wedi cael eu creu ar gyfer y prosiect i ysgogi pobl leol ac ymwelwyr i ddarganfod Cysawd Eryri. Byddwn yn cynnal hyfforddiant Awyr Dywyll i staff y busnesau ar y 7fed o Dachwedd. Gobeithio lansio y prosiect ar y	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

29ain o Dachwedd- digwyddiad cyffrous lle rydym yn gobeithio cael creu rocedi / noson seryddiaeth ar y diwedd. Hyd yn hyn mae 10 busnes a 9 ysgol (180 o blant) wedi bod yn rhan o'r prosiect.

Dangos fideo o'r prosiect Cysawd Eryri

Hoppa Harlech:

Dangos fideo o'r prosiect Hoppa Harlech

Rhoddodd RR ddiweddariad o'r prosiect hwn. Y gwasanaeth wedi rhedeg yn dda iawn ag yn boblogaidd- sgôr boddhad uchel iawn. Mae 3,600 wedi defnyddio'r gwasanaeth- cynnwys Bus Pass/Welsh Concessionaries/plant dan 5 oed. Casglwyd £2,798.50 dros y 44 diwrnod sef 23% o'r gost. Y gymuned yn teimlo fod y gwasanaeth wedi bod o fudd i'r dref- llai o draffig/tagfeydd. Casglwyd data gwerthuso gan sampl o 120, nodi fod defnyddwyr Hoppa yn gwario mwy o amser yn y dref, fwy tebygol o ymweld â'r castell/caffis/siopau. Y gymuned yn awyddus i redeg y gwasanaeth eto flwyddyn nesaf, ond mae bwlch refeniw mawr o £8,000. Martin yn edrych mewn i opsiynau i leihau y bwlch e.e. codi pris i £2, cael busnesau i noddi'r cynllun, codi £20 yn fwy ar aelodaeth Visit Harlech. DG yn egluro mai cynllun hel data oedd y prosiect er mwyn gweld os oedd model posib yno. GW a MJ yn awgrymu fod busnesau lleol a'r Cyngor yn cyfrannu at gostau rhedeg y gwasanaeth. MJ yn gofyn am ddiweddariad gan RR yn y cyfarfod nesaf.

Academi Dronau:

Dangos fideo o'r prosiect Academi Dronau

Rhoddodd ZP ddiweddariad o'r prosiect hwn. Y prosiect yn llwyddiannus gyda llawer o adborth positif gan yr aelodau a'u rhieni. Y 5ed sesiwn wedi bod dydd Sadwrn dwythaf, sesiwn olaf yn cael ei gynnal dydd Sadwrn yma (20fed o Hydref). Yr academi wedi cael dros 20 o aelodau rhwng 14 a 17 oed yn cynnwys hogiau a genod. Wedi cael siaradwyr gwadd i bob sesiwn e.e. darlithwr o Brifysgol Manceinion, Heddlu Gogledd Cymru, Gwion Llwyd, Sue Wolf ayyb. ZP yn amlygu pwysigrwydd yr academi gan ei fod yn dangos i bobl ifanc yr ardal y cyfleoedd gyrfa sydd i'w cael yn eu ardal lleol o fewn y diwydiant dronau. MJ yn canmol y prosiect ac awgrymu cysylltu gyda colegau a phrofysgolion i weld os oes modd gwneud cyd-weithio gyda nhw. Hefyd awgrymu syniad o ffurfio is-grwp arbennig er mwyn trafod dyfodol y prosiect a ble i fynd nesaf. ZP yn nodi fod angen mwy o bobl Gogledd Cymru yn ran o'r diwydiant Dronau. DG yn awgrymu digwyddiad i drafod dyfodol y cwmni gyda'r dronau.





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p><u>Dementia VR:</u> RH yn rhoi cyflwyniad ar y prosiect hwn. Wedi cael adborth da iawn a llawer o bobl wedi mynychu'r sesiynau mewn llyfrgelloedd a chanolfannau ar draws Gwynedd. Sesiynau yn dal i fynd ymlaen ac yn gorffen diwedd mis Hydref.</p> <p><u>Crwydro'n Sâff- Frongoch:</u> RH yn rhoi diweddariad o'r prosiect. Mae'r offer wrthi'n cael ei osod yn Frongoch, mi fydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau yn fuan. EY yn awgrymu fod yr enw yn gwestiynol- RH yn deallt ac yn nodi mai Wonder-Safe yw enw'r technoleg sy'n cael ei ddefnyddio, ond mae hi'n bosib newid enw'r prosiect yn y dyfodol.</p> <p><u>Maes Chwarae Digidol (LoRaWAN):</u> RH yn rhoi diweddariad o'r prosiect. Wedi cael adborth da ac mae yno arian ar ôl yn y pot yn barod i'w wario. Lansiad Maes Chwarae Digidol yng Ngholeg Glynllifon Dydd Gwener 12/10/2018 wedi mynd yn dda. Nifer o siaradwyr gwadd- RO yn un ohonynt. RO yn esbonio sut mae sensorydd yn gweithio a sut y gall nhw gael ei defnyddio ac yn lle. Gall fod yn fanteisiol i'r Cyngor e.e. gwagio biniau sbwriel ayyb. RH yn esbonio fod angen dylunio 5 sensorydd newydd – gall fod yn gyfle i fyfyrwyr Glynllifon fynd ati weithio arno. MJ yn awgrymu trefnu digwyddiad yn Glynllifon- rhyw fath o open call i gael syniadau am sensorydd – RH egluro fydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn parhau dros y flwyddyn nesaf I sicrhau defnydd. ZP yn awgrymu fod y marchnata angen newid cyfeiriad a chanolbwytio ar negeseuon symlach e.e. enwi'r problem a darganfod ffordd i'w ddatrys. RO yn esbonio cais AIP- 1. sensoryddion LoRaWAN i fesur tymheredd pridd a'r maetholion 2. Dioglewch ar y fferm e.e. sensoryddion ar giatau.</p>	
6.	<p><u>Crynodeb o Arloesi Gwynedd Wledig</u> ZP yn rhoi cyflwyniad ar Strategaeth Datblygu Lleol (LDS). Atgoffa'r aelodau am 29 o amcanion yr LDS a'u pwysigrwydd pan yn trafod a chymeradwyo prosiectau yn y LAG. Mae angen adolygu'r LDS er mwyn atgoffa'r aelodau o beth yn union yw LEADER. Nodi'r 7 amcan i'w flaenoriaethu fel a ddewiswyd yn sesiwn adolygu'r SDLL yn Tachwedd 2017. Nodwyd hefyd yr amcanion sydd heb ei weithredu gyda phrosiect hyd yma (tanwydd coed, cyd-weithio gyda profysgolion, helpu busnesau efo caffael). AJ yn yn credu y dylai ni greu tŵl-kit i helpu grwpiau cymunedol sy'n gwneud cais i Gronfa Peilota Gwynedd allu creu cynllun busnes, astudiaeth dichonoldeb eu hunain heb buddsoddiad ariannol mawr bob tro.</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

7.	<p>Cadarnhad Tanwariant</p> <p>ZP yn rhoi diweddariad cyllid. Cadarnhawyd mai £2.547,247 miliwn oedd cyfanswm y pot ar ddechrau y cynllun.</p> <p>Petae'r GGLL yn cymeradwyo'r holl brosiectau heddiw (Cyfanswm cyfraniad AGW o £98,500), byddai'n gadael £1,271,066 arol i'w glustnodi a'i wario cyn Rhagfyr 2021.</p> <p>Eglurwyd bod Thema 2 yn tanwario o'l gymharu a'r themau eraill. Yn gyfateb l hynny, roedd arian ar gyfer Thema 5 yn rhedeg yn isel.</p> <p>Awgrymodd ZP symud £200,000 allan o Thema 2 l mewn l Thema 5.</p> <p>Golygir fod Thema 2 yn gostwng o £593,168 i £393,168 ac bod Thema 5 yn cynyddu o £275,174 i £475,174.</p> <p>Cytunodd aelodau'r GGLL I'r symudiad arian yma.</p> <p>Aeth ZP ymlaen l gadarnhau bod £52,571.67 o danwariant wedi bod ym mhrosiectau AGW, wedi'l amlygu wrth i nifer o brosiectau ddod l ben yn ddiweddar.</p> <p>Awgrymodd ZP symud £10,000 o'r tanwariant l mewn l'r cyllid ymchwil o dan £5,000 sydd yn bodoli. Byddai hyn yn golygu bod ymchwil ar gyfer Thema 3 yn cynyddu o £940 i £5,940, ac bod Thema 5 yn cynyddu o £2,238 i £7,238.</p> <p>Cytunodd aelodau'r GGLL I'r symudiad arian yma.</p> <p>Wrth gytuno'r uchod, roedd yn gadael £42,571.67 arol o danwariant i'w ail-glustnodi.</p> <p>Awgrymodd ZP symud £35,777.58 i mewn i Thema 5 y rhaglen, gyda'r swm sydd yn weddill (£6,794.09 o tanwariant cydweithredol) yn dychwelyd yn nôl i'r portyn cydweithredol.</p> <p>Cytunodd aelodau'r GGLL I'r symudiad arian yma.</p>	
8.	<p>Ffurflen Diwygio Prosiect</p> <p>Presgripsiwn Cymdeithasol:</p> <p>ZP a RH rhoi esboniad o beth ydi'r prosiect ac yn egluro fod angen £1,100 o arian ychwanegol er mwyn cynnal gwerthusiad mwy cyflawn. Mi fydd yr</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>arian yn mynd at dalu cytundebwr i ddadansoddi holiaduron gan oddeutu 20 o bobl a chynnal cyfweiliadau byr gyda sampl o'r unigolion sydd yn cymeryd rhan yn y cynllun. Mi fydd y gwybodaeth hyn yn ddefnyddiol er mwyn symud ymlaen a dysgu o'r prosiect. MJ ac AJ yn cytuno fod hwn yn brosiect da ac mae angen mwy ohonynt yng Ngwynedd gan fod nifer o bobl y Sir yn dioddef o unigrywdd, yn enwedig yr henoed. Ffordd da o gael pobl allan o'r tŷ ac i'r awyr agored.</p> <p>Aelodau yn cymeradwyo'r £1,100 yn ychwanegol.</p>	
9.	<p>Cronfa Peilota Gwynedd</p> <p>Eglurodd ZP ein bod wedi derbyn 6 cais i'r gronfa, a cafodd 5 allan o'r 6 cais ei gymeradwyo yn y Panel Asesu a chafodd ei gynnal ar y 10/10/18. Mi wnaethom dderbyn un cais yn ychwanegol a gafodd ei fethu oherwydd problemau gyda e-bost, felly penderfynwyd trafod y cais hwn yn y cyfarfod yma.</p> <p>Llety Arall</p> <p>Mae'r cwmni hwn yn gofyn am gymorth ariannol i greu Cynllun Marchnata fydd yn targedu dysgwyr Cymraeg sydd eisiau cael y profiad o aros mewn tref sylweddol lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng cymdeithasol. Gan fod y farchnad maent yn anelu i'w atynnu yn un weddol newydd, maent angen cymorth penodol gan arbenigwr yn y maes. Roedd yr aelodau yn teimlo fod y cwmni yn gofyn am gymorth sydd yn bosib yn bodoli o fewn arbenigedd cyfarwyddwyr a rhanddeiliaid y cwmni yn barod.</p> <p>Yr aelodau yn gwrthod y cais hwn.</p>	
11.	Ceisiadau i'w cymeradwyo	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

11.1	<p>1. <u>AGW.084 Wi-fi Mynediad Cyhoeddus yr Wyddfa</u></p> <p>RR yn rhoi cyflwyniad i'r prosiect. Bwriad y prosiect yw i roi mynediad wi-fi cyhoeddus ar droed y Wyddfa fel bod gwybodaeth pwysig ar gael i bobl leol ac i ymwelwyr e.e. tywydd 'byw', amserlen Sherpa, llwybrau addas. Ar hyn o bryd, mae'r ardaloedd hyn yn dioddef o brinder signal ffôn symudol/3G neu 4G. Mi fydd cael wi-fi cyhoeddus yn yr ardaloedd hyn yn gwella profiad ymwelwyr ac gobeithir yn arwain at leihad o ddefnyddio'r gwasanaeth achub bywyd mynydd. . CM yn nodi fod ymwelwyr yn aml yn troi fyni i'r ardal heb lawer o wybodaeth am yr ardal ac yn bwriadu dringo'r Wyddfa, sy'n gallu bod yn beryglus. Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi cael grant o £20,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at y prosiect, ac mi fydd AGW yn cyfrannu £36,000. IN yn credu ei fod yn syniad da, yn enwedig os oes modd iddo helpu mewn achub pobl mewn argyfwng ar y mynydd. RR yn egluro fod cynlluniau i osod gorsaf dywydd ar gopa'r Wyddfa fydd yn casglu data am y tywydd ac mi fydd hwn wedyn ar gael i ymwelwyr sydd yn bwriadu cerdded i fyni'r Wyddfa.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect pilot ar gyfanswm o £36,000.</p>	
11.2	<p>2. <u>AGW.085 Strydoedd Unigryw</u></p> <p>SMT yn rhoi eglurhad o'r prosiect, sef ffordd o geisio cynyddu nifer o ymwelwyr sy'n ymweld ac yn siopa ar strydoedd fawr trefi yng Ngwynedd. Mi fydd AGW yn chwilio am 3 ardal/stryd penodol drwy gwneud galwad agored i unrhyw gymuned o ddiddordeb. Gall prosiectau gynnwys gosodiadau celf, cyfres o weithgareddau neu ddatblygiadau digidol. Mi fydd disgwyl i'r cymunedau ddatblygu prosiectau arloesol a cyffrous er mwyn denu mwy o bobl i'r stryd. SMT yn nodi fod pethau tebyg yn digwydd yn ardaloedd eraill e.e. pobl yn cystadlu yn High Street Awards. EY yn awyddus fod y prosiectau yn adlewyrchu cymreictod yr ardal. DG yn awgrymu fod Cymraeg Byd Busnes yn mynd yno i siarad gyda'r grwpiau cymunedol a busnesau lleol. SMT yn awgrymu y gall hyn fod yn amod i'r cynllun. Hefyd mi wnaeth SMT nodi fod AGW am gasglu data ar faint o ymwelwyr sydd wedi bod yn y strydoedd yn ystod y cynllun, er mwyn darganfod os oedd gwahaniaeth i'w weld ar ôl cyflwyno prosiect i stryd penodol.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect pilot ar gyfanswm o £50,000.</p>	





Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

11.3	<p>3. AGW Cymunedau Cysylltiedig ZP yn rhoi eglurhad o'r prosiect peilot. Mi fydd AGW yn gweithio gyda cymunedau Gwynedd er mwyn darganfod pa fath o dechnoleg fydd fwyaf addas er mwyn cael band-eang yn eu ardal nhw. Mi fydd y prosiect yn ceisio rhoi gwybodaeth i gymunedau allu archwilio opsiynau band-eang eraill gan fod llawer o ardaloedd heb fynediad i wasanaeth band-eang. Mi fydd RCDF yn helpu 5 cymuned i ariannu prosiectau. Cyfanswm y prosiect fydd £25,000 ond mi fydd AGW yn cyfrannu hanner hyn (£12,500) gydag Arloesi Môn yn cyfrannu'r 50% arall. EY yn gofyn os bydd amrediad o wahanol bobl mewn cymuned i wneud penderfyniadau a'u perchnogi.</p> <p>Cymeradwyodd aelodau'r LAG y prosiect peilot ar gyfanswm o £12,500.</p>	
Materion Cyffredinol		
12.	ZP yn cyhoeddi fod SMT yn gadael AGW oherwydd ei bod hi wedi cael swydd yn Menter Môn fel Rheolwr Cynlluniau. Diolchodd ZP am yr holl waith gyda AGW a dymunodd pob lwc iddi.	
Dyddiad Nesaf		
13.	Cadarnhodd ZP dyddiad nesaf LAG sef, 20fed o Chwefror 2019, Lleoliad i'w gadarnhau.	

